

Ein cyf: NB/mm

Gofynnwch Matthew Aplin

am:

Eich cyf:



01656 644218

Dyddiad: 30 Hydref 2018



Matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk

Llyr Gruffydd AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

**Drwy e-bost:  
SeneddCyllid@cynulliad.cymru**

Annwyl Llyr

## **Amcangyfrif Ariannol - 2019/20 - Llythyr o Gynrychioliad**

Diolch am eich llythyr ar 25 Hydref, yn nodi bod y Pwyllgor wedi penderfynu cyfyngu ar gynydd wrth ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol i 1.67%. Rwy'n atodi gosodiad amcangyfrifon wedi'i adolygu sy'n adlewyrchu'r cyfyngiad hwn. Rwyf wedi ychwanegu sylwadau byr (sy'n adlewyrchu'n fras yr hyn a ddywedwyd mewn ymateb i gwestiynau yn y Pwyllgor Cyllid ar 11 Hydref) ar oblygiadau'r cyfyngiad hwn.

Fel yr esbonwyd yn y Pwyllgor, rwyf wedi ceisio cynyddu'r adnoddau i staff reoli'r llwyth gwaith cynyddol, ac mae cyllidebau eraill wedi cael eu lleihau i gyflawni hyn. Rwy'n ystyriol o argymhellion y Pwyllgor y llynedd y dylid datblygu cynllun TG tair i bum mlynedd ac y dylid ymestyn gwaith gwella i gyrff eraill. Byddaf yn sicrhau bod y cynllun TG yn cael ei adolygu i leihau'r risg a'r effaith sy'n deillio o'r lefel is o ariannu. Rwy'n ymwybodol bod y cyfyngiad 1.67% yn lleihau'n sylweddol fy nghallu i ymgymryd â gwaith gwella, a fydd yn cael ei leihau yn hytrach na'i gynyddu.

Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y llynedd na ddylai'r gosodiad amcangyfrifon y dyfodol gynyddu mwy na Bloc Cymru. Roedd fy ngosodiad cychwynnol yn ystyried yr argymhelliad hwnnw (ac roedd y cynydd a geiswyd yn is nag yn y Bloc Cymru). Fodd bynnag, datblygwyd y gosodiad o'r gwaelod i fyny (drwy edrych ar anghenion gwario) yn hytrach na'r brig i lawr. Nid oeddwn yn ceisio cyfateb â'r cynydd yn y Bloc. Mewn unrhyw ddigwyddiad, fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol, roedd y gosodiad gwreiddiol yn ceisio cynydd o 3.8%, ffigur sy'n sylweddol is na'r ffigurau 5.8% a 7.8% ar gyfer y cynydd yn y Bloc a gyfeirwyd ato yn y llythyr hwnnw. Mae hefyd yn sylweddol is na'r cynnydd o 8.2% yn y Bloc Cymru yn dilyn datganiad cyllideb y Canghellor ddoe.

Tud 1 a 2

Rwyf wedi ychwanegu gwybodaeth ynghylch costau'r pwerau newydd yn ôl y gofyn. Rwy'n deall y gallai Cydsyniad Brenhinol fod yn bosibl o fewn un mis o Gam 4, a bydd gosodiad Cyllidebol Atodol yn ystyried amseriad hyn a gorchymyn / gorchmynion cychwyn ar gyfer elfennau'r pwerau newydd. Rwy'n gobeithio y bydd y gosodiad wedi'i adolygu yn adlewyrchu dymuniadau'r Pwyllgor. Rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw wybodaeth bellach neu eglurhad arnoch chi.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick Bennett', written in a cursive style.

**Nick Bennett**  
Ombwdsmon